

Adroddiad Arolygu Gwasanaethau *Plant*

yng Nghastell-nedd Port Talbot

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Casgliadau	4
Argymhellion	8
Canfyddiadau	
Thema 1: Rhoi Cyfeiriad	10
Thema 2: Cyflenwi Gwasanaethau Cymdeithasol	13
Thema 3: Llunio Gwasanaethau	18
Thema 4: Rheoli Asesiadau Gofal	21
Atodiadau	28



Digidol ISBN 978 1 4734 3415 8
© Hawlfraint y Goron 2015
WG25049

Cyflwyniad

Ym mis Tachwedd 2012, gwnaed Gwasanaethau Plant Castell-nedd Port Talbot yn destun protocol pryderon difrifol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Bu trefniadau monitro chwarterol ar waith i asesu cynnydd yr awdurdod lleol wrth gyflawni ei gynllun gwella strategol. Yn sgil archwiliad pellach ym mis Tachwedd 2013, arhosodd y protocol yn ei le.

Mae'r adroddiad hwn yn perthyn i arolygiad a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2015. Canolbwyntiodd arolygwyr ar asesu a oedd digon o gynnydd wedi'i wneud i geisio gwella ansawdd a chysondeb gwasanaethau i blant a phobl ifanc sydd ag angen cymorth neu ddiogelwch, gan gynnwys y rheiny oedd yn derbyn gofal ac yn gadael gofal. Darllenodd arolygwyr ffeiliau achos a gwnaethant gyfweld â staff, rheolwyr a gweithwyr proffesiynol o asiantaethau partner. Lle roedd modd, gwnaethant siarad â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Yn ogystal, gwerthusodd arolygwyr botensial yr awdurdod lleol i gynnal a datblygu gwelliannau i'r gwasanaeth.

Hoffai'r tîm arolygu ddiolch i aelodau etholedig Castell-nedd Port Talbot, staff, asiantaethau partner, a defnyddwyr gwasanaeth a gyfrannodd at yr arolygiad hwn.

Casgliadau

Canolbwyntiodd yr arolygiad yn bennaf ar y cynnydd a wnaed gan yr awdurdod lleol wrth weithredu'r 22 o argymhellion a wnaed yn yr adroddiad arolygu diwethaf (gweler yr atodiadau). Mae'r argymhellion yn cwmpasu pedair thema sy'n cael eu hamlinellu isod.

Thema 1: Rhoi Cyfeiriad

Roedd y flaenoriaeth glir a roddwyd i weithredu'r cynllun gwella yn tystio i'r gefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gref a roddwyd i'r cynllun. Bu buddsoddiad cyson a phwrpasol yn y gweithlu a'r adnoddau, ac roedd hyn wedi arwain at gyflenwi gwasanaethau plant yn well ac yn fwy cyson. Dangosodd yr aelodau etholedig a'r tîm rheoli corfforaethol ddealltwriaeth gyffredin o'r cyfeiriad a'r penderfyniad sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cefnogi canlyniadau gwell yn effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghastell-nedd Port Talbot. Roedd aelodau etholedig yn wybodus ynghylch perfformiad ac yn gallu nodi meysydd sydd ag angen eu gwella o hyd. Roedd trefniadau craffu wedi cael eu datblygu a'u cryfhau ymhellach. Roedd y panel rhianta corfforaethol wedi codi ei broffil ar draws yr awdurdod, a gwnaed rhywfaint o gynnydd o ran gwella canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Roedd asiantaethau partner yn ymgysylltu'n dda o ran strategaeth ac yn dangos dealltwriaeth dda o'r materion cymhleth sy'n wynebu'r awdurdod. Er bod rhywfaint o anghysondeb rhwng effeithiolrwydd y trefniadau strategol a'r trefniadau gweithredol, roedd tystioleth o welliant yn y ddau faes wrth weithio gyda'i gilydd. Mynegwyd cefnogaeth gref i'r ymrwymiad sydd ei angen er mwyn creu agenda o welliant parhaus, wrth dderbyn hefyd bod yr awdurdod yn wynebu amgylchedd economaidd heriol ac yn etifeddu'r gyfran uchaf o bobl sy'n derbyn gofal yng Nghymru, ynghyd â lefelau uchel, parhaus o anghenion.

Mae arweinyddiaeth y gwasanaethau plant wedi arddangos gwelliannau sylweddol ers yr adolygiad diwethaf. Roedd gan yr uwch dîm rheoli barch a hygyrddedd ymhlith y gweithlu, ac roedd y gweithlu o'r farn bod ganddyn nhw lais a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi am eu hymdrechion wrth wella amseroldeb ac ansawdd y gwasanaethau. Roedd gan weithwyr well dealltwriaeth gyffredin o'r dull a ddefnyddir o reoli'r galw uchel am wasanaethau, o roi cymorth i blant fyw yn y gymuned, ac o leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal.

Thema 2: Cyflenwi Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae sefydlogrwydd cynaliadwy yn y gweithlu, gan gynnwys lleihau'r defnydd o weithwyr asiantaeth i gyflenwi pan fo staff i ffwrdd yn sâl, wedi gwneud cyfraniad sylweddol i wella dilyniant a chysondeb yr arferion gwaith. Mae cynefino gwell, hyfforddiant perthnasol, a chanllawiau i staff wedi bod o gymorth i ddatblygiad cadarnhaol y gweithlu. Nodwyd bod rhywfaint o fregusrwydd mewn rhai timau a bod angen cefnogi ymhellach datblygiad y grŵp rheoli tîm. Cafodd y materion hyn eu nodi gan uwch reolwyr, ac roedd trefniadau cefnogol ychwanegol bellach ar waith. Roedd gweithwyr yn deall y swyddogaethau a'r

cyfrifoldebau o fewn timau yn fwy eglur o lawer, ond roedd anghysondeb yn y trefniadau hyn ar draws y gwasanaeth, a gall hyn gael effaith ar effeithiolrwydd y broses o oruchwyllo a gwneud penderfyniadau.

Roedd morâl yn uchel ac nid oedd tystiolaeth o'r bwllo a'r diwylliant gormesol a adroddwyd ym mhob adolygiad blaenorol. Roedd optimistiaeth sylweddol y bydd y gwelliannau o ran cyflenwi gwasanaeth effeithiol ac amserol yn parhau. Roedd gweithwyr yn hyderus y byddai'r lefel o gefnogaeth gorfforaethol a rheolaethol yn parhau petai'r protocol pryderon difrifol yn cael ei godi. Bydd cynnal sefydlogrwydd y gweithlu, ac adeiladu ar y profiad yn y strwythur rheoli gweithredol drwyddo draw, yn gofyn am ymdrech a dyfeisgarwch sylweddol o hyd.

Ymddengys fod anghysondeb wrth gyflwyno'r fframwaith sicrhau ansawdd. Ni chât archwiliadau ffeil eu cwblhau'n systemataidd ac nid oedd digon o dystiolaeth o elwa ar gwynion ac adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth er mwyn gwella darpariaeth y gwasanaeth. Roedd 'Grŵp Gwella Perfformiad' ar waith ac iddo aelodaeth ar draws y gwasanaeth, ac roedd canlyniadau'r gwaith hwn wedi arwain at rai gwelliannau o ran ansawdd a chysondeb darpariaeth y gwasanaethau. Roedd cynllun ymgysylltu a chyfranogi ar waith er mwyn cychwyn ar y strategaeth, a ddatblygwyd yn 2013 ond na chyflwynwyd hyd yma. Cytunwyd ar ddwy swydd er mwyn mynd i'r afael â'r maes datblygu hwn.

Thema 3: Llunio Gwasanaethau

Wrth wneud defnydd da o'r dadansoddiad o anghenion lleol, gwnaed cynnydd cadarnhaol wrth gynllunio a ffurfio gwasanaethau oedd ganddynt y potensial i reoli'r galw uchel am wasanaethau statudol a lleihau'r 'boblogaeth sy'n derbyn gofal'. Roedd hi'n ymddangos bod cyd-adolygiad o'r holl wasanaethau cymorth, gan gynnwys y rhai a gomisiynwyd, wedi'i ddiwygio gyda'r bwriad o gyflymu'r newid. Canlyniad hyn oedd bod proses gyffredinol y model cyfan wedi ymrannu rhywfaint. Ond ymddengys fod gwasanaethau a gomisiynwyd yn ddiweddar wedi'u teilwra i ddiwallu'r anghenion a nodwyd, gyda threfniadau monitro cadarn. Roedd hi'n rhy gynnar ar adeg yr arolygiad i dystio i lwyddiant y ddarpariaeth hon wrth leihau'r angen i blant a phobl ifanc dderbyn gofal yn y dyfodol.

Roedd y galw am gymorth teulu yn parhau'n uchel, ac roedd nifer y cysylltiadau â gwasanaethau plant, yn arbennig mewn perthynas â thrais yn y cartref, yn nodedig. Roedd rheolwyr a gweithwyr cymdeithasol yn optimistaidd ynghylch gwasanaeth y Tîm o Amgylch y Teulu, a oedd wedi ymgymryd ag achosion 'plentyn mewn angen' gan wneud llwythi achosion y tîm yn haws i'w rheoli. Roedd cynlluniau ar waith i wella mynediad at y gwasanaeth hwn drwy borth cyffredin o fewn y gwasanaethau plant. Ond tri mis a fu ers i'r Tîm o Amgylch y Teulu ddod yn weithredol yn llawn, ac yn ogystal, roedd holl ystod y gwasanaethau 'ar gyrion gofal' yn dal i ddatblygu. Bydd felly cryn amser cyn i'r model hwn ddangos tystiolaeth o lwyddiant wrth gefnogi teuluoedd yn y gymuned ac wrth leihau'r galw am ymyriadau statudol. Roedd amrywiadau o ran i ba raddau roedd gweithwyr ac asiantaethau partner yn ymwneud â datblygiad y strategaeth ddiwygiedig ar gymorth i deuluoedd. Serch hynny, roedd y mwyafrif wedi'u diweddarau ynghylch

y cynnydd a wnaed. Roedd dal dryswch i weithwyr ynghylch union gylch gwaith y 'gwasanaethau ar gyrion gofal' ac am yr effaith ar ganlyniadau yn sgil colli gwasanaethau cymorth cyffredinol megis rhianta ar gyfer y rheiny mewn angen, a chwnsela ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Byddai rhagor o ddadansoddi ynglŷn â sut y gallai anghenion teuluoedd, yn enwedig y rheiny â phlant hŷn a phobl ifanc, gael eu cefnogi'n well yn gynharach o fudd i effeithiolrwydd y strategaeth cymorth i deuluoedd.

Thema 4: Rheoli Asesiadau Gofal

Roedd y trefniadau ar gyfer rheoli cysylltiadau ac atgyfeiriadau yn amserol ac yn effeithiol ar y cyfan. Roedd y trothwyon rhwng 'cymorth cynnar' ac ymyriadau statudol gan wasanaethau cymdeithasol yn briodol ac yn gweithredu'n effeithiol ar y cyfan. Roedd cysondeb yr asesiadau cychwynnol wedi gwella, ac roedd y trefniadau ar gyfer cyfeirio at y Tîm o Amgylch y Teulu neu wasanaethau cymorth eraill yn fwy trefnus. Anghenion y plentyn sydd flaenaf wrth gynnal asesiadau, ond mae'r broses o gofnodi safbwyntiau plant a theuluoedd yn parhau'n anghyson. Nodwyd nad oedd nifer o blant hŷn a phobl ifanc a atgyfeiriwyd wedi cael asesiad amserol neu ymyrraeth gynnar a phriodol.

Roedd plant a phobl ifanc a oedd mewn perygl o niwed, neu a oedd yn debygol o fod yn y sefyllfa honno, yn cael eu nodi, a gwnaed gwaith priodol er mwyn helpu i'w cadw'n ddiogel. Roedd y trefniadau ar gyfer ymholiadau amddiffyn plant yn amserol ac yn dangos gwelliant o ran cysondeb ac ansawdd. Roedd rheolwyr yn ymwybodol bod partneriaid wedi nodi'r angen am fwy o gysondeb a gwell gwybodaeth wrth baratoi ar gyfer trafodaethau strategaeth. Roedd ansawdd gwaith asesu risg wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf ond dal yn amrywio. Roedd gweithwyr wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol, ond roedd angen rhagor o gymorth ac arweiniad, yn enwedig o ran y trefniadau rheoli risg.

Cwblhawyd gwaith y grŵp craidd yn fwy effeithiol, ond roedd ansawdd cynllunio amddiffyn plant yn amrywio. Yn ôl pob golwg, roedd diffyg hyder gan y gweithwyr i ddatblygu'n llawn y cynllun amddiffyn plant cychwynnol, a gytunwyd yn y gynhadledd achos. Roedd asiantaethau partner weithiau'n betrusgar wrth gytuno i dynnu enwau plant oddi ar y gofrestr amddiffyn plant, er bod cynnydd wedi ei wneud i leihau risg. Nid oedd cadeiryddion cynhadleddau achos wedi rheoli'r her hon yn effeithiol bob amser. Er bod pwyslais cryf wedi'i roi ar hyfforddiant amlasiantaeth ar gyfer gwaith amddiffyn plant, mae dal angen datblygu dealltwriaeth gyfun o drothwyau yn y gwasanaeth. Bu pwyslais ar adolygu proffiliau plant ar y gofrestr amddiffyn plant, gan roi trefn ar bethau ac uwchgyfeirio pryderon pan oedd hyn yn briodol. Nid oedd teuluoedd bob amser ynghlwm wrth gynllunio amddiffyn plant nac yn deall ei ddiben bob amser.

Roedd trefniadau trosglwyddo o'r tîm derbyn ac asesu i'r timoedd plant cymunedol wedi gwella'n sylweddol. Roedd y gweithwyr yn deall y broses, a mynegodd y mwyafrif ohonynt eu bod yn fodlon ar dryloywder a thegwch y broses o ddyrannu achosion. Dywedwyd bod llwythi gwaith yn haws i'w trin ac yn cael eu hadolygu'n rhagweithiol. Roedd hi'n amlwg bod gan rai timau fwy o gapasiti i ystyried eu harferion, cynnal asesiadau mwy deinamig, a chynyddu gwaith uniongyrchol.

Cwblhawyd goruchwyliaeth yn rheolaidd, ond roedd ansawdd y gefnogaeth a throsolwg y rheolwyr yn amrywio; dywedwyd bod hyn yn sgil diffyg capasiti yn hytrach na diffyg gallu'r rheolwyr. Roedd trosolwg cyffredinol y rheolwyr wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf.

Roedd y trothwy ar gyfer cychwyn yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn briodol, ac roedd y trefniadau ar gyfer ceisio cyngor cyfreithiol yn effeithiol. Roedd nifer yr achosion â'r statws hwn wedi lleihau'n sylweddol yn y deuddeg mis blaenorol, ond roedd sawl achos a adolygwyd wedi llithro yn ôl pob golwg yn ystod y cam 'cyn bod achos'. Gall diffyg cynllunio effeithiol cyson, ar y cyd â diffyg wrth osod canlyniadau y gellid mesur cynnydd mewn perthynas â nhw, fod yn rhwystr rhag gwneud penderfyniadau'n amserol. Roedd fformat cynlluniau wedi gwella, ac roedd hyn wedi ei gwneud hi'n haws i gofnodi'n well. Serch hynny, roedd cynllunio gofal yn parhau'n faes sydd angen ei ddatblygu.

Roedd gan weithwyr cymdeithasol well dealltwriaeth gyffredin o bwrpas ymweliadau statudol, a gwelodd arolygwyr ryw faint o waith uniongyrchol da iawn yn y ffeiliau. Mae mwyafrif yr achosion o blant sy'n derbyn gofal yn cael eu dyrannu'n briodol, ac adolygwyd sefydlogrwydd yn fwy effeithiol. Gwnaed gwaith sylweddol er mwyn galluogi'r tîm adolygu annibynnol i chwarae rhan fwy gweithgar wrth herio effeithiolrwydd cynlluniau ac i sicrhau ansawdd y trefniadau'n well. Ni châi plant a phobl ifanc eu gweld yn rheolaidd gan eu Swyddog Adolygu Annibynnol cyn eu hadolygiadau, a nodwyd bod angen gwella dogfennau ymgynghori'n sylweddol os ydynt am gael eu defnyddio'n gyson.

Argymhellion

Rhoi Cyfeiriad

1. Rhaid parhau i roi cefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gref i wasanaethau plant os yw'r gwelliannau a wnaed yn mynd i gael eu cynnal a'u cyfnerthu.
2. Dylai'r Panel Rhianta Corfforaethol barhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod canlyniadau gwell ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a chefnogi dulliau gwell o gywain barn defnyddwyr gwasanaeth.

Cyflenwi Gwasanaethau Cymdeithasol

3. Rhaid i strategaeth y gweithlu gynnwys amcanion tymor hir a thymor canolig ar gyfer recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol. Dylid adolygu'r trefniadau ar gyfer dirprwy reolwyr tîm a gweithwyr cymdeithasol ymgynghorol i sicrhau bod eu capasiti i gyflawni eu dyletswyddau'n gyson ar draws y gwasanaeth.
4. Dylid monitro llwythi achosion yn barhaus i sicrhau bod digon o gapasiti gan weithwyr i ymgymryd â gwaith uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc, a'u teuluoedd.
5. Dylid gofalu bod rhaglenni arweinyddiaeth a datblygiad ar gael i adeiladu cydnherthedd o fewn y tîm rheoli gweithredol, ac mae angen cefnogaeth barhaus i ddatblygu'r tîm adolygu annibynnol.
6. Dylid rhoi blaenoriaeth i roi cynllun gweithredu Cyfranogiad ac Ymgysylltu ar waith.
7. Rhaid i'r fframwaith sicrhau ansawdd gael ei gyflwyno'n systemataidd ledled y gwasanaeth. Dylid adolygu ansawdd yr oruchwyliaeth i sicrhau bod yna ddull cyson sy'n batrwm o broses sicrhau ansawdd effeithiol ar y rheng flaen.
8. Dylid monitro'r gwasanaeth cwynion yn gyson i sicrhau bod digon o adnoddau a chapasiti ar gael er mwyn ei reoli'n effeithiol. Yn sefydliadol, dylid dysgu'n well oddi wrth gwynion er mwyn gwella ansawdd gwasanaethau.

Llunio Gwasanaethau

9. Dylid adolygu'r strategaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal i sicrhau bod gwasanaethau'n canolbwyntio ar les emosiynol ac y llwyddir i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer y plant a phobl ifanc hynny sydd mewn gofal tymor hir.
10. Mae angen mwy o gydweithio rhwng asiantaethau er mwyn cytuno ar drothwyau ar draws y gwasanaeth, yn enwedig ynghylch gwneud penderfyniadau ar ddwysáu neu leihau trefniadau.

11. Dylid adolygu'r Strategaeth Cymorth i Deuluoedd i sicrhau bod eglurder ynghylch cymhwysedd ac integreiddio gwell rhwng y gwasanaethau cymorth ar draws y dull haenog o ddiwallu anghenion. Dylid cynnwys hefyd drefniadau i gefnogi teuluoedd i ymwneud â gwasanaethau ataliol cynnar.

Rheoli Asesiadau Gofal

12. Dylid cynyddu effeithiolrwydd y trefniadau sy'n sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc yn cael eu hasesu os yw pryderon am eu lles yn cael eu hailadrodd.
13. Dylai'r grŵp amlasiantaeth ar gyfer adolygu gan gymheiriaid ystyried tueddiadau o ran galw ar gyfer gwasanaethau ataliol a monitro'r trothwyon ar gyfer y gwasanaethau hyn, eu heffeithiolrwydd, a'r nifer sy'n eu derbyn.
14. Dylid darparu hyfforddiant asesu risg ar gyfer gweithwyr cymorth sydd heb gymhwyso, a dylai'r gwaith o hyrwyddo cysondeb ym maes rheoli risg gadw ffocws clir.
15. Mae angen rhagor o welliant yn ansawdd y cynllunio gofal, a mwy o bwyslais yn benodol ar drefniadau sefydlog ar gyfer y rheiny mewn gofal tymor hir.

Thema 1: Rhoi Cyfeiriad

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae trefniadau arwain, rheoli a llywodraethu yn cydymffurfio â chanllawiau statudol, a gyda'i gilydd maent yn amlinellu strategaeth effeithiol ar gyfer darparu gwasanaethau a chanlyniadau o ansawdd da i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae'r awdurdod yn cydweithio â phartneriaid i ddarparu cymorth, gofal ac amddiffyniad i blant a phobl ifanc, ac yn cyflawni ei ddyletswyddau rhianta corfforaethol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae gan arweinwyr, rheolwyr ac aelodau etholedig wybodaeth a dealltwriaeth gynhwysfawr o arfer a pherfformiad sy'n eu galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

Canfyddiadau allweddol

1. Roedd trefniadau arwain, rheoli a llywodraethu yn cydymffurfio â chanllawiau statudol.
2. Roedd gan aelodau etholedig well ddealltwriaeth o sut i ofyn cwestiynau am berfformiad a chydabod ansawdd gwasanaethau.
3. Roedd cyfathrebu a pherthnasau â phartneriaid yn gweithio'n fwy effeithiol.
4. Ni chafodd barn plant a phobl ifanc ei chasglu'n ddigonol na'i defnyddio i ddarparu sicrwydd bod gwasanaethau'n effeithiol.
5. Roedd cred gyffredinol bod y cyfeiriad strategol ar gyfer gwasanaethau ymyriad cynnar yn glir a chredadwy.
6. Rhoddwyd blaenoriaeth i wella gwasanaethau a diogelu plant a phobl ifanc ar agendâu corfforaethol.
7. Roedd trefniadau rhianta corfforaethol yn cael eu mewnbllannu ac yn dechrau gwneud gwahaniaeth go iawn, ond bydd angen ymdrech ar y cyd i sicrhau llwyddiant parhaus.
8. Roedd yr arweinyddiaeth a ddangoswyd gan uwch reolwyr ynghyd â'u hamlygrwydd ac atebolrwydd yn cael eu gwerthfawrogi drwy gydol y gweithlu a chan asiantaethau partner.

Canfyddiadau

Esboniad o'r canfyddiadau

1.1 Yn hanesyddol, cafwyd ymrwymiad cryf gan aelodau etholedig a'r tîm corfforaethol i gefnogi'r agenda'n llawn i ddarparu gwasanaethau plant yn effeithiol. Fodd bynnag, heriwyd hyn pan ddefnyddiwyd y protocol pryderon difrifol o ganlyniad i ddirywiad mewn perfformiad dros nifer o flynyddoedd. Roedd arweinydd y cyngor wedi annog aelodau etholedig i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r gweithlu ac adrodd yn ôl am rwystrau o ran gwella. Mae pwyllgor craffu plant a phobl ifanc ac addysg wedi elwa o gymorth wrth ddatblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o elfennau strategol a gweithredol gwasanaethau plant. Canlyniad hyn yw bod trefniadau corfforaethol yn cael eu cryfhau, sy'n gwella'r gallu i herio perfformiad a dechrau dwyn asiantaethau partner i gyfrif.

1.2 Roedd yr awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i ysgogi gwelliant a sicrhau bod diogelu yn flaenoriaeth ar draws y cyngor. Roedd cysylltiadau cryf rhwng y bwrdd gweithredu gwelliannau strategol, y grŵp diogelu lleol, a'r bwrdd rhanbarthol ar gyfer diogelu plant. Roedd uwch swyddogion corfforaethol a chyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol wedi hyrwyddo'r ethos o bob unigolyn yn cymryd cyfrifoldeb dros gyflawni gwelliannau. Roedd asiantaethau partner wedi ymrwymo i 'sicrhau bod diogelu'n cyrraedd plant unigol, yn hytrach na thrafodaethau lefel uchel yn unig'.

Dyfyniad gan asiantaeth bartner:

'Dangoswyd llawer o ddiddordeb gan bobl strategol yn y cyngor, ac rydym wedi cyfrannu at y gwaith o geisio unioni pethau o'r dechrau.'

1.3 Roedd aelodau etholedig yn gallu rhoi enghreifftiau o'r gwahaniaeth y mae 'rhianta corfforaethol' wedi ei chael ar ganlyniadau plant a phobl ifanc a oedd yn derbyn gwasanaethau. Roedd y rhain yn cynnwys cefnogi cyfleoedd i blant sy'n derbyn gofal i gyflawni ym myd addysg a chynyddu'r opsiynau tai â chymorth ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal. Roedd ymrwymiad i sicrhau na fyddai pobl ifanc yn cael eu gosod mewn llety gwely a brecwast anaddas bellach. Roedd hyn yn dangos newid allweddol o'r arolygiadau blaenorol, pan oedd rhianta corfforaethol yn cael ei ystyried yn oddefol yn hytrach nag yn rhagweithiol. O ystyried y cynnydd sylweddol a ragwelir yn nifer y rhai sy'n gadael gofal dros y ddwy flynedd nesaf, bydd angen ymdrech ar y cyd i sicrhau llwyddiant parhaus y fenter hon. Mae dal angen i aelodau etholedig brofi cyswllt mwy uniongyrchol â phlant a phobl ifanc i glywed drostynt eu hunain p'un a yw'r cymorth maent yn ei dderbyn yn eu paratoi i fyw'n annibynnol yn y dyfodol.

1.4 Dangosodd cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol a phennaeth y gwasanaeth arweinyddiaeth gref ac uchelgeisiol i ysgogi gwelliant yn strategol ac yn weithredol. Roedd partneriaid a staff yn gadarnhaol iawn am y dylanwad a roddwyd i 'gyflawni pethau' a gwaredu ar unrhyw rwystrau i newid. Disgrifiwyd pawb yn y tîm o uwch reolwyr yn bobl agored, ac yn dryloyw o ran eu dull o ymdrin ag aelodau staff. Nodwyd bod hyn yn newid sylweddol o ran diwylliant, a rhoddodd hyn hyder i'r gweithlu bod eu cyfraniad yn cael ei werthfawrogi. Roedd datblygiadau megis y 'grŵp gwella perfformiad', sydd wedi'i gadeirio gan bennaeth y gwasanaeth ac sy'n arwain yn uniongyrchol at gamau gweithredu i wella problemau o ran arferion, yn dangos y staff bod ymagwedd fwy cynhwysol a chydweithredol.

Dyfyniad gan aelod y tîm corfforaethol:

'Mae'r diwylliant wedi newid yn yr awdurdod – mae'n fwy cydweithredol o lawer. Nid ydym yn ofni edrych yn feirniadol ar yr hyn rydym yn ei wneud.'

Thema 2: Cyflenwi Gwasanaethau Cymdeithasol

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Darperir gwasanaethau gan weithlu profiadol a medrus â chymwysterau addas sy'n gallu diwallu anghenion plant a phobl ifanc a'u teuluoedd. Mae'r cyngor yn gallu sicrhau bod staff a gwasanaethau'n cyrraedd y safonau a bennwyd ar eu cyfer.

Canfyddiadau allweddol

1. Roedd gweithredu'r strategaeth ar gyfer y gweithlu wedi arwain at welliant parhaus o ran sefydlogrwydd y gweithlu ers yr arolygiad diwethaf.
2. Roedd gweithwyr yn gadarnhaol ynghylch cyfleoedd cynefino, hyfforddiant a datblygu.
3. Roedd goruchwyliaeth yn amserol ar y cyfan, ond roedd ansawdd yr arweiniad a goruchwyliaeth y rheolwyr yn amrywio.
4. Roedd trefniadau gwell ar gyfer trosglwyddo wedi ategu dilyniant a llif gwaith gwell. Roedd cymorth busnes yn fwy trefnus ac yn cefnogi staff i weithio'n fwy effeithiol.
5. Roedd morâl y staff yn uchel, ac nid oedd adroddiadau o fwllo diweddar nac arferion gormesol.
6. Mae llwythi achosion wedi lleihau ar gyfer y rhan fwyaf o weithwyr, ond roedd gan rai timau faich gwaith uwch yn gyffredinol, ac roedd hyn yn effeithio ar ansawdd a chysondeb y gwaith a wnaed gyda phlant a phobl ifanc.
7. Roedd gwell ddealltwriaeth o swyddogaethau a chyfrifoldebau o fewn timau, ond roedd hyn yn amrywio drwy'r gwasanaeth.
8. Roedd aelodau o'r tîm rheoli uwch yn cael eu gwerthfawrogi am y cymorth amserol ac effeithiol yr oeddent yn ei roi i'r staff.
9. Roedd rheoli perfformiad wedi'i fewnblannu a'i ddeall ar draws y gwasanaeth.
10. Nid oedd y fframwaith sicrwydd ansawdd wedi'i weithredu'n gyson, gydag ond ychydig o adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau neu ddysgu sefydliadol yn sgil cwynion.
11. Roedd sawl panel ar waith i hybu mwy o gysondeb o ran arferion ac i helpu i reoli'r galw.

Dyfyniad gan reolwr:

"Mae'r diwylliant golau glas wedi newid, ac rydym yn ymwybodol o'r hyn rydym yn ceisio ei gyflawni."

Esboniad o'r canfyddiadau

2.1 Gwnaeth y sefydlogrwydd yn y gweithlu a gafodd ei gynnal a'i gynyddu ers yr arolygiad diwethaf gyfrannu at wasanaeth mwy cydlynol. Roedd mwy o ddilyniant i deuluoedd, plant a phobl ifanc, ac roedd gweithwyr yn gallu cael mynediad at arweiniad a chymorth mwy cyson ar gyfer eu gwaith. Roedd cymorth gan staff adnoddau dynol penodedig wedi bod yn hanfodol o ran cyflawni hyn. Mae proffil y gweithlu wedi newid, ac mae canran uwch â chymwysterau dros ddwy flynedd. Roedd rhywfaint o wendid ar lefel rheolwr y tîm o hyd; roedd chwech ohonynt wedi bod yn eu swydd bresennol am lai na blwyddyn, ac roedd pedwar ohonynt yn newydd i'r rôl rheolwr. Mae nifer y gweithwyr asiantaeth a gyflogir gan yr awdurdod wedi lleihau o 24 ar adeg yr arolygiad diwethaf i 11. Roedd y rhai a oedd yn eu swyddi yn cyflenwi oherwydd absenoldeb staff, yn hytrach nag yn llenwi swyddi gwag. Roedd gweithwyr asiantaeth hefyd yn cael eu rheoli'n rhagweithiol, ac roedd rhaglen gynefino a hyfforddiant ar waith, a defnyddiwyd contractau dros dro i rai gweithwyr asiantaeth er mwyn rhoi mwy o ddilyniant i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Dylai'r strategaeth gweithlu gael ei hadolygu i gynnwys cynlluniau tymor canolig a hirdymor i recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol cymwys. Canfu'r staff fod cymorth gweinyddol wedi'i drefnu'n well ac yn cefnogi eu gwaith yn fwy effeithiol.

2.2 Cafodd yr anghysondeb o ran galluoedd y staff ac ansawdd yr arferion a ganfuwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf ei leihau'n sylweddol ar draws y gwasanaeth. Roedd gan staff well ddealltwriaeth o amcanion a chyfeiriad cyffredinol y gwaith. Roedd rhai gweithwyr yn gallu cyferbynnu'r sefyllfa bresennol â'r anawsterau a oedd yn amlwg yn y ddwy flynedd flaenorol. Roedd pob tîm ond am un yn gadarnhaol iawn ynghylch morâl, a lleihau'r baich gwaith. Roedd lefel uchel o hyder y byddai'r uwch dîm rheoli yn ymdrin yn effeithiol ag unrhyw bryderon ynghylch bwllo. Roedd un tîm wedi profi cyfnod o aflonyddwch o ran eu lleoliad ac o ran rheolaeth y tîm. Roedd uwch reolwyr yn ymwybodol o'r pryderon, ac roedd cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â'r materion hyn. Roedd yr holl weithwyr a gafodd cyfweiliad yn optimistaidd ynghylch dyfodol y gwasanaeth, ac yn credu y byddai'r agenda gwelliannau'n parhau i gael ei gefnogi, ac y byddent yn gwneud gwahaniaeth i'r plant a'r teuluoedd yr oeddent yn gweithio â nhw.

2.3 Darparwyd rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant priodol i'r staff, ac roedd rhai ohono'n orfodol. Cafwyd cyfradd presenoldeb dda iawn ar y cyfan, gan gynnwys ar gyfer hyfforddiant amlasiantaeth. Nodwyd bod gan bob gweithiwr gynllun dysgu unigol ar waith, a dywedwyd bod y staff a'r rheolwyr wedi teimlo'n gadarnhaol ynghylch y rhaglen gynefino. Roedd trefniadau cadarn ar waith i gefnogi'r flwyddyn gyntaf o ymarfer, ac i'r staff allu gwneud rhaglen gyfuno i weithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso. Nid oedd arfarniadau staff yn gyson, ond roedd gweithwyr yn cael cynnig cyfleoedd am ddatblygiad personol ar draws y gwasanaeth. Roedd strwythur y staff yn amrywio o dîm i dîm yn unol â maint y gwaith, anghenion lleol, neu swyddi gwag a gafwyd fel mater o drefn. Roedd gweithwyr yn deall yn glir gwahanol swyddogaethau'r gweithwyr cymdeithasol ymgynghorol a'r dirprwy reolwyr tîm, er bod cyfrifoldebau'r ail un yn amrywio. Er ei fod yn ymddangos bod datblygu gwahanol swyddogaethau tîm wedi'i groesawu gan y staff, mae angen adolygu'r strwythur a sicrhau bod goruchwyliaeth gyson a sicrwydd ansawdd ar draws y gwasanaeth.

2.4 Roedd y baich gwaith ar draws timau plant cymunedol yn amrywio'n sylweddol, a gallai hyn fod yn ganlyniad i wahaniaethau o ran galw ac amddifadedd lleol. Fodd bynnag, roedd yn debygol bod hon hefyd yn etifeddiaeth o ansefydlogrwydd y gweithlu yn y gorffennol, a gafodd effaith fwy ar rai timau. Roedd nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant yn amrywio o 35 mewn un tîm i 70 mewn un arall, ac roedd nifer y plant sy'n derbyn gofal yn amrywio o 21 i 57. Er bod nifer y gweithwyr cymdeithasol ym mhob tîm yn amrywio o saith i 11, roedd gan rai dirprwy reolwyr tîm hyd at 15 o achosion, ac roedd gan eraill dim. Er bod y swydd hon yn gwneud cyfraniad cadarn i'r gwelliant cyffredinol o ran darparu'r gwasanaeth, roedd y gwahaniaeth o ran baich gwaith wedi arwain at alluogi rhai timau i ddatblygu arferion myfyriol ac i wneud cynnydd mwy effeithiol ar achosion. Nodwyd pryderon yn yr arolygiad diwethaf ynghylch y nifer uchel o achosion o blant sy'n derbyn gofal a oedd yn cael eu trin gan dimau plant cymunedol yn hytrach na'r tîm plant sy'n derbyn gofal. Roedd nifer yr achosion yn y tîm hwnnw wedi cynyddu gan chwech yn y cyfnod interim, ond ar y cyfan roedd nifer yr achosion o blant sy'n derbyn gofal mewn timau plant cymunedol wedi lleihau gan 40. Crybwyllwyd bod 71 o achosion o blith 145 yn destun gorchmynion lleoli neu'n dal i fod mewn gweithrediadau gofal, a chafodd 25 o blant eu nodi fel rhai a fyddai'n briodol i gael eu trosglwyddo i'r tîm Plant Sy'n Derbyn Gofal. Roedd yr awdurdod wedi nodi bod angen cynyddu capasiti'r tîm hwnnw, a chytunwyd ar ddwy swydd ychwanegol. Dylai'r trefniadau parhad ar gyfer y plant a phobl ifanc hyn gael eu hadolygu'n gyfundrefnol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn y cymorth sydd ei angen i gyflawni'r canlyniadau gorau.

2.5 Roedd gwaith monitro'r baich gwaith yn barhaus, ac roedd amryw drefniadau ar waith i gefnogi timau a oedd yn cael trafferthion o ran capasiti. Roedd gweithwyr yn pryderu rywfaint bod cyfyngiad amser ar gymorth, ac nid oeddent yn sicr ynghylch cynnydd yn y dyfodol pe bai'n cael ei ddirwyn i ben. Roedd yr uwch reolwyr yn hyderus bod ganddynt gynlluniau ar waith i reoli'r pryderon hynny'n well, ac ni fyddai'r staff yn cael eu gadael heb gymorth.

Dyfyniadau gan weithwyr cymdeithasol:

'Mae morâl yn ein tîm yn uchel iawn, ac mae diwylliant cefnogol a rheolwyr cefnogol.'

'Yn aml, mae goruchwyliaeth yn teimlo ei bod wedi cael ei rhuthro ac nid yw'n foddhaol.'

'Roeddwn i am gael profiad o weithio ar achos yn yr amlinelliad cyfraith gyhoeddus – roedd modd i mi gysgodi cydweithiwr mwy profiadol. Cefais gymorth ardderchog, [ac] mae fy hyder wedi gwella'n fawr iawn.'

'Rydw i'n dal i weithio ar y llwyth o waith sydd wedi cronni, ond mae pethau'n gwella nawr.'

2.6 Cafodd trefniadau trosglwyddo, yn enwedig rhwng y timau derbyn a thimau plant cymunedol, eu cryfhau'n sylweddol. Roedd gweithwyr yn deall y broses yn glir, ac roeddent yn gwybod beth i'w ddisgwyl cyn i achosion gael eu trosglwyddo. Roedd pob tîm ond am un wedi adrodd bod achosion yn cael eu trafod â nhw cyn iddynt gael eu

trosglwyddo, ac roeddent o'r farn bod y broses yn dryloyw a theg. Roedd yr oruchwyliaeth yn amserol ac yn effeithiol yn y rhan fwyaf o'r timau, ond roedd amrywiaeth o ran ansawdd tasgau â ffocws, a dywedodd rhai staff fod diffyg arweiniad uniongyrchol. Nodwyd bod diffyg myfyrio ar arferion a herio adeiladol yn y gwaith papur a'r ffeiliau a adolygwyd gennym. Roedd y gweithwyr yn croesawu pa mor agored oedd yr uwch dîm rheoli ynghylch archwilio ffyrdd gwahanol o ddarparu gwasanaethau'n fwy effeithiol. Cyflwynwyd nifer o ddatblygiadau, yn ogystal â lleihau'r boblogaeth sy'n derbyn gofal, i'r arolygwyr, gan gynnwys:

- asesu gwendidau a gwydnwch o ran plant sy'n derbyn gofal;
- asesu rhianta deinamig;
- dull asesu unedig ar gyfer gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig.

Nid oedd y mentrau hyn yn cael eu defnyddio eto ar draws y gwasanaeth, ond roedd y gefnogaeth ar gyfer arferion creadigol yn amlwg, ac roedd yn dangos posibilrwydd da y gellid gwella canlyniadau.

2.7 Roedd trefniadau rheoli perfformiad wedi eu mewnbllannu'n dda ar draws y gwasanaeth. Roedd gan reolwyr fynediad da i ddata perfformiad, ac roedd y system TG yn galluogi mwy o gynnydd posibl o ran casglu data. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaeth misol i ystyried perfformiad, dadansoddi tueddiadau, a phenderfynu ar ba gamau gweithredu y dylid eu hystyried pe bai unrhyw 'fannau problemus' yn cael eu nodi. Roedd gan weithwyr farn fwy cadarnhaol ynghylch yr angen i reoli perfformiad, yn rhannol oherwydd bod y ffordd y defnyddid y system dangosfwrdd wedi cael ei newid a hefyd oherwydd cafwyd gwelliant sylweddol o ran amseroldeb dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

2.8 Cafwyd cynnydd tameidiog o ran rhoi'r fframwaith sicrwydd ansawdd ar waith. Roedd rhywfaint o hyn o ganlyniad i leihad priodol o ran cyflymder, pan nodwyd bod archwilio ffeiliau achos yn un o anghenion datblygu'r gwasanaeth drwyddo draw. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod y gwaith archwilio a gwblhawyd yn canolbwyntio ar gydymffurfiaeth yn hytrach nag ansawdd. Gwnaed ymdrech fawr i weithio gyda'r swyddogion adolygu annibynnol i sicrhau y byddent yn gallu darparu proses sicrhau ansawdd effeithiol a fyddai'n helpu i wella gwasanaethau. Ni chafodd hyn ei fewnbllannu'n ddigon da ar adeg yr arolygiad i ddangos tystiolaeth bod y dull hwn wedi llwyddo. Roedd datblygu'r tîm hwn yn dal i fod yn flaenoriaeth ar gyfer y gwasanaeth. Gwnaed rhywfaint o gynnydd drwy waith y grŵp gwella arferion, ond nid oedd hwn yn mynd i'r afael â'r angen i gael rhaglen gyfundrefnol ar waith a fyddai'n rhoi adborth parhaus ar ansawdd gwasanaethau. Ychydig iawn o dystiolaeth oedd am sut y defnyddiwyd gwaith ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau, a'u cyfraniadau, i lywio'r broses o wella'r gwasanaeth. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau penodol, ac er bod y rhain yn gadarnhaol, nid oedd canolbwynt clir iddynt. Mae cynllun gweithredu ar waith i ddatblygu'r strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogi, a chytunwyd ar swyddi ychwanegol i arwain y meysydd gwaith hyn sydd angen blaenoriaeth.

2.9 Gwnaeth yr ymdrech sylweddol a wnaed gan gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol a phennaeth gwasanaethau plant gyfrannu at leihad sylweddol yn nifer

y cwynion a dderbyniwyd yn 2014. Roedd pwyslais ar reolwyr rheng flaen i ymateb i gwynion yn unol â pholisi newydd Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, ar y cyfan nid oedd yr adolygiad o ddogfennau cwynion a thrafodaethau â'r staff am gwynion yn rhoi lefel o hyder bod system amserol ac effeithiol ar waith. Ni chafodd ansawdd y gwaith datrys cwynion wedi'i gyd-drefnu na'i reoli'n dda. Nid oedd annibyniaeth y gwasanaeth yn dryloyw, ac er bod canlyniadau cwynion yn cael eu hystyried gan grŵp perfformiad y rheolwr tîm, nid oedd yn glir sut yr oedd yr hyn a ddysgid yn cael ei ddefnyddio'n gyson i wella ansawdd gwasanaethau. Roedd y gwasanaeth yng nghanol cyfnod o drawsnewid ar adeg yr arolygiad, ac roedd swyddog cwynion wedi'i benodi'n ddiweddar mewn rôl ddiwygiedig. Mae angen rhoi rhagor o sylw i gynorthwyo staff rheng flaen i ddatrys cwynion, ac i arholi annibynnol gan reolwyr a gwaith cyd-drefnu gan y swyddog cwynion. Mae angen cryfhau goruchwyliaeth yr uwch swyddog a dysgu sefydliadol.

Enghraifft o arferion adolygu cwynion:

Roedd y ffurflenni monitro cwynion wedi eu llunio'n dda, ac roeddent yn cynnwys yr holl gwestiynau cywir, ond nid oedd yr un ffurflen wedi'i chwblhau'n llawn ac nid oedd yn bosibl gweld a oedd achosion wedi cyd-fynd â'r amserlenni. Rhoddir pwyslais priodol i gyfrifoldeb y staff rheng flaen i geisio datrys cwynion os yn bosibl, ond nid yw'n glir a ydynt yn cael cymorth parhaus mewn perthynas â hyn, ac eithrio rhywfaint o hyfforddiant. O'r cofnodion a adolygwyd gennym, nid oedd yn glir beth oedd rôl yr aelod o staff a oedd yn destun y gŵyn wrth geisio ei datrys.

Thema 3: Llunio Gwasanaethau

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae'r gwasanaethau a chymorth i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn gwella eu canlyniadau. Mae gwaith â phartneriaid o ran llunio patrwm gwasanaethau a'r broses o'u darparu wedi'i lywio gan asesiad dadansoddi anghenion lleol, ac yn cynnwys safbwyntiau a phrofiadau plant a phobl ifanc. Caiff cynlluniau strategol eu trosi'n drefniadau comisiynu sy'n darparu gwasanaethau diogel o ansawdd da ac yn darparu'r gwerth gorau.

Canfyddiadau allweddol

1. Cafodd gwaith dadansoddi o anghenion lleol ei ddefnyddio'n dda i lywio a chomisiynu gwasanaethau.
2. Roedd asiantaethau partner wedi ymgysylltu'n dda â gwaith cynllunio strategol, ond nid oedd pob un ohonynt yn cymeradwyo'r broses, nac yn cytuno â'r holl ganlyniadau.
3. Roedd y penderfyniad i beidio â chyd-adolygu'r gwasanaethau ataliol cynnar a gwasanaethau a gomisiynir wedi gwneud i'r ddarpariaeth gyffredinol ddarnio rywfaint.
4. Nid oedd llais y plentyn yn amlwg o ran llywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau.
5. Cafodd gweithwyr eu hysbysu am y datblygiadau, ac roeddent yn optimistaidd ynghylch y canlyniadau y gallai'r 'Tîm o Amgylch y Teulu' eu cyflawni.
6. Cafodd cytundebau comisiynu eu datblygu'n dda, ac amlinellwyd safonau a disgwyliadau clir i ddiwallu anghenion a nodwyd. Roedd trefniadau monitro'n canolbwyntio ar ganlyniadau a gwerth gorau.
7. Roedd y strategaeth 'plant sy'n derbyn gofal' yn canolbwyntio ar y flaenoriaeth o ran lleihau'r nifer sydd mewn gofal, ond nid oedd yn amlinellu sut y gellid ategu'r canlyniadau gorau ar gyfer plant a phobl ifanc.
8. Ni chafodd y gefnogaeth gref ar gyfer cyfeiriad y ddarpariaeth gwasanaeth gan asiantaethau partner ei throsglwyddo'n gyson i'r arferion.

Canfyddiadau

Esboniad o'r canfyddiadau

3.1 Roedd strategaeth gomisiynu (2014-17) ar waith ar gyfer ymyrryd yn gynnar ac atal. Roedd y 'Bartneriaeth Teulu'n Flaenaf' wedi defnyddio asiantaethau partner wrth gynllunio cyfeiriad strategol gwasanaethau ataliol cynnar. Nid yw rhai partneriaid wedi deall y diwygiad i'r cynllun i gyd-adolygu effeithiolrwydd yr holl wasanaethau. Roedd canfyddiad y gallai hyn arwain at ddarpariaeth dameidiog nad oedd wedi'i hintegreiddio'n llawn i ddiwallu'r ystod lawn o anghenion. Fodd bynnag, ar y cyfan roeddent yn gadarnhaol ynghylch posibiladau'r model arfaethedig ar gyfer darparu gwasanaethau. Roedd y gwasanaethau hynny a gafodd eu hailgomisiynu wedi cael eu llywio gan anghenion lleol, ac roedd trefniadau cadarn ar gyfer monitro ac adolygu. Ar adeg yr arolygiad, roedd ansicrwydd ynghylch dilyniant y gwasanaeth eirioli, ac ni chytunwyd ar y trefniadau ar gyfer cyflenwi'r ddarpariaeth statudol hon ar ôl Ebrill 2015. Mae rhai darparwyr presennol wedi methu ag ymgysylltu â'r awdurdod i adolygu'r gwasanaethau yr oeddent yn eu darparu. Dywedwyd bod hyn o ganlyniad i golli swydd gomisiynu. Roedd cynlluniau ar waith i ddechrau ailgomisiynu pob un o'r gwasanaethau caffaeledig targededig a oedd yn weddill yn haf 2015 er mwyn comisiynu'r gefnogaeth gywir i gyd fynd â'r anghenion.

3.2 Datblygwyd dwy strategaeth allweddol i helpu i drawsnewid gwasanaethau a rhoi hwb i'r agenda ar gyfer newid. Roedd y strategaeth Plant sy'n Derbyn Gofal yn canolbwyntio ar leihau nifer y plant a oedd eisoes yn derbyn gofal. Defnyddiwyd proffil o'r boblogaeth sy'n derbyn gofal i ategu'r strategaeth, ond nid oedd hyn yn cynnwys proffil anghenion. Tra bod lleihau niferoedd yn debygol o ryddhau adnoddau ac amser gweithwyr i ddarparu gwaith mwy uniongyrchol, mae'n rhaid cydbwysu hyn â mynd i'r afael â hyglwyfedd emosiynol plant a phobl ifanc, ac mae llawer ohonynt wedi profi niwed a cham-drin sylweddol. Dylai'r strategaeth Plant sy'n Derbyn Gofal gael ei hadolygu i sicrhau y canolbwyntir yn fwy ar gynorthwyo plant i fwynhau lles cadarnhaol ac i gyflawni eu potensial. Mae proffil y plant sy'n derbyn gofal yn dangos y bydd nifer uchel o bobl ifanc yn dod yn gymwys ar gyfer cynllun llwybr yn y ddwy flynedd nesaf (94). Mae gan y tîm gadael gofal nifer uchel o achosion eisoes, ac roeddent wrthi'n mynd i'r afael ag ôl-groniad o gynlluniau llwybr. Cafodd y diffyg llety ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal ei nodi eisoes, a dylid gwneud cynlluniau i sicrhau bod capasiti i gefnogi'r cynnydd rhagamcanol yn niferoedd. Mae'r strategaeth cymorth teuluol drafft yn amlinellu'r dull pedair haen y mae Castell-nedd Port Talbot wedi ei ddewis i ddiwallu'r anghenion a nodwyd ac i gyfrannu at ymdrechion i sicrhau bod mwy o blant a phobl ifanc yn derbyn gofal yn y gymuned. Mae trefniadau wedi eu cynnwys i sicrhau dull 'camu i fyny – camu i lawr', ond mae diffyg manylder o ran cael amrywiaeth o wasanaethau sydd wedi'i integreiddio'n llawn. Mynegodd y staff a'r partneriaid y gwnaethom gyfweld â nhw bryderon ynghylch:

- diffyg gwasanaethau therapiwtig i blant sy'n derbyn gofal;
- cyfyngiad oedran ar gyfer rhai gwasanaethau;
- bylchau o ran rianta a chefnogaeth gwnsela.

3.3 Byddai uwch reolwyr yn ystyried gweithwyr cymdeithasol yn gwneud 'achos busnes' dros wasanaethau'n diwallu unrhyw angen a nodwyd nad oedd yn cael ei ddiwallu. Roedd y dull hwn yn debygol o greu rhwystrau ar gyfer staff prysur, a byddai sicrhau argaeledd amserol ar gyfer trefniadau prynu yn ôl y galw yn anodd. Dylid cofnodi anghenion y nodwyd nad ydynt wedi cael eu diwallu, fel rhan o'r broses ailgomisiynu arfaethedig.

Meysydd i'w datblygu o hyd (Arolwg Staff)

Trefniadau pontio gwell rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion.
Mwy o gymorth i deuluoedd (plant rhwng 3 a 7 oed) oherwydd bellach mae bwlch yn y ddarpariaeth.

3.4 Roedd dealltwriaeth gyffredin ymhlith asiantaethau partner o'r dull strategol yr oedd yr awdurdod yn ei ddefnyddio i leihau poblogaeth y plant sy'n derbyn gofal a'r staff. Roedd dwy elfen allweddol i hyn: gweithio i ddiogelu trefniadau parhad amgen ar gyfer y rhai sydd eisoes mewn gofal, a sicrhau cymorth o ansawdd da i deuluoedd a rheoli risg er mwyn atal plant rhag gorfod bod mewn gofal. Ni fydd yr ail o'r mentrau hyn yn cyrraedd ei lawn potensial nes i'r 'gwasanaethau ar gyrion gofal' a'r gwasanaethau ataliol fod yn gwbl weithredol yn hwyrach yn 2015. Yn y cyfamser, mae'r elfen ymyrraeth o waith cymdeithasol yn canolbwyntio llawer mwy ar reoli risg yn effeithiol, wrth sicrhau hefyd bod plant yn ddiogel wrth dderbyn gofal. Gwelwyd enghreifftiau a oedd yn dangos nad oedd asiantaethau partner yn gwbl hyderus o'r dull hwn, ac mae angen ymgysylltu mwy ag asiantaethau partner i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o drothwyon mewn ymyriadau statudol 'camu i fyny' a 'chamu i lawr'.

3.5 Roedd diffyg capasiti i allu symud gwaith ymlaen o ran ymgysylltu'n gyfundrefnol â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd wrth gynllunio gwasanaethau. Datblygwyd cynllun gweithredu a chytunwyd ar adnoddau ychwanegol i gynyddu cyflymder y gwaith a wneir yn y maes hwn.

Dyfyniad gan aelod o staff:

'Ystyrir bod gan gwasanaethau plant broffil uchel, ond mae partneriaid eraill o'r farn ei fod yn dal i fod yn y gorffennol – mae diffyg hyder y bydd gwasanaethau ar gael oni bai eu bod yn cael eu rheoli drwy brosesau statudol.'

Thema 4: Rheoli Asesiadau Gofal

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae plant a phobl ifanc y nodwyd bod angen cymorth neu amddiffyniad arnynt, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal, yn cael cymorth ac amddiffyniad amlasiantaeth sy'n amserol ac effeithiol drwy gynllunio ar sail risg, arfer awdurdodol, a gwaith adolygu sy'n dwyn canlyniadau cadarnhaol.

Canfyddiadau allweddol

1. Gwnaeth plant a phobl ifanc a oedd angen amddiffyniad dderbyn gwasanaeth amserol ac effeithiol, er mwyn helpu i'w cadw'n ddiogel.
2. Roedd asiantaethau partner a gwasanaethau plant yn deall trothwyon priodol ar gyfer cael mynediad at wasanaethau statudol.
3. Nid oedd anghenion pobl ifanc 11+ oed bob amser yn cael eu hasesu'n effeithiol, ac roedd hyn yn eu rhwystro rhag cael cymorth ataliol amserol.
4. Roedd ansawdd yr asesiadau cychwynnol wedi gwella, ac roedd asesiadau craidd yn canolbwyntio mwy ar ganlyniadau.
5. Roedd trefniadau ar waith i wella dilyniant ac i drefnu llif gwaith.
6. Er bod cynllunio gofal wedi gwella, roeddent yn anghyson, ac nid oeddent bob amser yn canolbwyntio ar ganlyniadau.
7. Roedd ansawdd y gwaith dadansoddi risg o fewn asesiadau a chynllunio gofal yn amrywio.
8. Roedd gwaith achos yn canolbwyntio ar blant, ond nid oedd yn mynegi dymuniadau a theimladau plant yn ddigon aml.
9. Roedd gwaith grŵp craidd yn fwy effeithiol, ond roedd diffyg hyder gan weithwyr i ddatblygu cynlluniau amddiffyn plant yn llawn, ac ni chafodd rhieni gymorth i ddeall y broses.
10. Roedd gweithwyr wedi gwneud mwy o waith uniongyrchol o ansawdd da gyda phlant a phobl ifanc.
11. Roedd trothwyon ar gyfer dechrau Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn briodol, ond nodwyd bod rhywfaint o ddrifftio yn y cam cyn gweithrediadau.

Esboniad o'r canfyddiadau

4.1 Roedd y trefniadau ar gyfer cael mynediad at wasanaethau plant wedi cael eu had-drefnu ers yr arolygiad diwethaf, ac o ganlyniad i hyn cafwyd gwelliant o ran effeithiolrwydd. Roedd canran yr atgyfeiriadau lle gwnaed penderfyniad o fewn un diwrnod gwaith ar tua 98.5% yn nhrydydd chwarter 2014/15, ac roedd y perfformiad hwn wedi dangos gwelliant cyson. I ddechrau, ar ôl ad-drefnu yn 2013, roedd y tîm derbyn dim ond yn sgrinio cysylltiadau ac atgyfeiriadau; cafodd hyn ei ehangu i gynnwys cyfrifoldeb dros gwblhau asesiadau cychwynnol, gydag unrhyw achosion lle roedd angen amddiffyn plant neu gymorth parhaus yn cael eu trosglwyddo i'r timau plant cymunedol. Cafodd y trefniadau hyn eu hadolygu yn 2014, a chytunwyd y byddai ymholiadau Adran 47 yn cael eu cwblhau gan y tîm derbyn er mwyn gwella amseroldeb a dilyniant o fis Tachwedd 2014 ymlaen. Cafodd trosglwyddiadau achosion eu rheoli gan gyfarfodydd wythnosol, a oedd hefyd yn rhoi cyfle i sgrinio ymhellach yr achosion a gafodd eu camu i lawr i'r gwasanaeth Tîm o Amgylch y Teulu. Dywedodd gweithwyr cymdeithasol yn y timau plant cymunedol eu bod yn gallu cynllunio a threfnu eu gwaith mewn ffordd fwy effeithiol, ac er bod dal angen amserlen dyletswyddau ar gyfer ymholiadau amddiffyn plant a ddaeth i mewn ar achosion agored, ni chafodd hyn ddylanwad sylweddol ar eu gallu i gwblhau gwaith a gynlluniwyd. Mynegodd gweithwyr yn y tîm derbyn hefyd fodlonrwydd â'r trefniadau diwygiedig a oedd yn rhoi mwy o amser iddynt i weithio gyda theuluoedd a dechrau gwneud gwahaniaeth i'w sefyllfaoedd.

Sylwadau gan rieni:

'Mae hi [y gweithiwr cymdeithasol] yn wych. Mae hi'n siarad â fi ac yn gwrando; mae hi'n deall ac yn tawelu fy meddwl.'

'Pob tro rydw i'n galw, os nad yw'r gweithiwr cymdeithasol yna mae hi'n cysylltu yn ôl nes ymlaen neu'r diwrnod wedyn.'

4.2 Tra bod tuedd fach ar i lawr yn nifer yr atgyfeiriadau o 2013/14, gwnaeth maint y gwaith aros yn uchel, yn enwedig gyda chysylltiadau gan yr heddlu wrth adrodd achosion o drais domestig. Gwnaeth canran yr ail-atgyfeiriadau leihau'n sylweddol yn y flwyddyn flaenorol hefyd, o 26% hyd 16%. Roedd rhywfaint o'r lleihad hwn yn ganlyniad i sgrinio'r holl gysylltiadau fel bod bron 100% o'r rhai a ddiffinnir yn atgyfeiriadau wedi mynd ymlaen i gael asesiad cychwynnol. Roedd yn glir o'r data a dderbyniwyd gan yr awdurdod bod lefel uchel o gysylltiadau lluosog gan rai teuluoedd. Roedd protocol ar waith a oedd yn datgan y byddai asesiad cychwynnol yn cael ei gynnal pe bai mwy na dau gyswllt yn cael eu derbyn ar yr un plentyn neu un o'i frodyr neu chwiorydd o fewn cyfnod penodol. Nododd yr arolygwyr nad oedd y protocol yn cael ei ddilyn mewn rhai o'r ffeiliau achos a adolygwyd. Canlyniad hyn oedd nad oedd cymorth amserol yn cael ei ddarparu i rai plant. Roedd rheolwyr yn monitro gwaith yn y maes hwn, a chraffwyd ar drothwyon gan ddefnyddio grŵp adolygu gan gymheiriaid amlasiantaeth, a oedd yn edrych ar achosion y lleisiwyd pryderon yn eu cylch. Byddai'n fuddiol pe bai ymagwedd fwy holistaidd i'r trefniadau hyn i ystyried tueddiadau a chanlyniadau. Byddai hyn hefyd yn gyfle i wirio'r trothwyon ar gyfer atgyfeirio i'r gwasanaeth Tîm o Amgylch y Teulu. Mae'r posibilrwydd o leihau maint

y gwaith statudol a wneir yn dibynnu'n rhannol ar effeithiolrwydd y gwasanaeth, ac nid oedd y gwasanaeth wedi bod yn gweithredu'n llawn am ddigon hir ar adeg yr arolygiad i allu cwblhau gwerthusiad. Fodd bynnag, roedd data'n dangos bod llai na 50% o'r teuluoedd wedi mynd ymlaen i ddefnyddio gwasanaeth o blith y 209 o atgyfeiriadau a wnaed i'r Tîm o Amgylch y Teulu rhwng Ebrill a Rhagfyr 2014. At hynny, dim ond 28 o atgyfeiriadau a wnaed gan ymwelwyr ieuchyd, sydd yn y sefyllfa orau i allu nodi anghenion yn gynnar. Nodwyd bod hon yn broblem, ac roedd cynlluniau ar waith i weithiwr Tîm o Amgylch y Teulu ymuno â'r tîm derbyn, sydd eisoes yn cynnwys gweithiwr ieuchyd a gweithiwr camddefnyddio sylweddau. Mae angen cynorthwyo teuluoedd i ymgysylltu â gwasanaethau ataliol ac i drefniadau cam i fyny a cham i lawr gynnwys y cam hanfodol hwn.

4.3 Roedd nifer yr asesiadau cychwynnol a gwblhawyd yn y cyfnod rhwng mis Ebrill a Rhagfyr 2014 wedi lleihau o'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol. Roedd amseroldeb yn dda yn gyson, a chafodd rhwng 92% a 95% o asesiadau eu cwblhau o fewn saith diwrnod. Roedd ansawdd asesiadau cychwynnol wedi gwella, ac yn y rhan fwyaf o'r achosion a adolygwyd gan yr arolygwyr, defnyddiwyd ystod dda o wybodaeth i ddatblygu'r dadansoddiad o anghenion. Cafodd yr holl asesiadau eu llofnodi gan reolwyr mewn ffordd amserol, ac roeddent yn cynnwys sylwadau ganddynt. Nid oedd cysondeb o ran pa elfennau o'r gwaith oedd yn cael sicrwydd ansawdd gan reolwyr, ac mae angen mynd i'r afael â hyn. Roedd templedi diwygiedig ar gyfer asesiadau'n cynnwys nodyn atgoffa i gofnodi risgiau a nodwyd. Roedd hyn yn sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol yn gwneud rhywfaint o asesu risg fel rhan o'r gwaith, ond roedd mwy o anghysondeb yn y maes hwn o waith asesu. Roedd yr holl weithwyr cymdeithasol wedi cwblhau hyfforddiant asesu risg, ond roedd angen datblygu ymhellach, yn enwedig o ran cofnodi maint y risg a nodwyd. Byddai hefyd yn fuddiol i weithwyr cymorth practis wneud yr hyfforddiant hwn gan fod ganddynt lwythi achosion. Er nad ydynt yn gweithio ar achosion amddiffyn plant, byddai'n fuddiol iddynt allu nodi risg yn gynnar wrth weithio ar achosion 'mewn angen'.

Dyfyniad o'r Arolwg Staff:

'Mae'r gweithdrefnau ar waith i alluogi gweithwyr i ddiogelu a gweithio gyda phlant a theuluoedd i gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Mae'r cyfarfod Grŵp Gwella Perfformiad (PIG) yn ffordd wych i gael y rheolwyr i wrando ar bryderon y timau a rhoi gwybodaeth ar led.'

4.4 Roedd ansawdd yr ymchwiliadau Adran 47 yn dangos mwy o gysondeb, ac yn yr achosion a adolygwyd, cymerwyd camau priodol i gadw plant yn ddiogel. Cafwyd gwelliannau hefyd o ran cofnodi penderfyniadau a wnaed a goruchwyliath rheolwyr. Nid oedd y penderfyniad i symud yn syth i'r ymchwiliad amddiffyn plant bob amser yn cael ei gofnodi'n glir ar yr asesiad cychwynnol. Yn yr achosion hyn, cynhaliwyd asesiad craidd fel y'i hamlinellir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag yn yr achosion hyn, nid oedd mecanwaith ar gyfer cofnodi ac adrodd p'un a oedd plentyn wedi cael ei weld ar ei hun. Dywedwyd bod hyn wedi cyfrannu at ddirywiad mewn perfformiad i 38.7% yn 2013/14. Dylid mynd i'r afael â'r diffyg hwn yn y system gofnodi

fel bod goruchwyliaeth dda gan reolwyr o b'un a yw plant yn cael eu gweld ar eu pennau eu hunain yn briodol.

4.5 Roedd nifer yr asesiadau craidd a gwblhawyd wedi lleihau ychydig yn nhri chwarter cyntaf 2014/15 i 636, o gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol. Roedd amseroldeb o ran cwblhau asesiadau craidd yn gyson gadarnhaol ar 82%. Roedd ansawdd y gwaith asesu hwn yn amrywio mwy nag yn yr asesiadau cychwynnol. Fodd bynnag, gwnaed cynnydd, ac roedd tystiolaeth o berthynas weithio dda rhwng gweithwyr cymdeithasol a theuluoedd yn yr achosion a adolygwyd. Roedd y rhan fwyaf o'r canlyniadau'n dda neu'n foddhaol. Nid oedd yn glir bob amser i ba raddau roedd plant a phobl ifanc yn cyfrannu at eu hasesiadau. Canfuwyd bod yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer gweithrediadau llys wedi gwella llawer, ac roeddent yn gynhwysfawr ac wedi eu hysgrifennu'n glir.

Safbwyntiau a fynegwyd gan rieni:

'Roeddem yn teimlo y byddai'r asesiad craidd yn ddefnyddiol, ond yn y pen draw, cafodd ei golli gan fod gymaint o bethau'n digwydd. Roedd gweithio allan beth oedd fod i ddigwydd yn anodd.'

4.6 Roedd nifer yr achosion 'plant mewn angen' agored wedi lleihau'n sylweddol ers yr arolygiad diwethaf o 1,152 hyd 733 ar ddiwedd mis Ionawr 2015. Cafodd hyn ei gyflawni drwy adolygu'r cynlluniau plentyn mewn angen yn gyfundrefnol, a gwnaeth hyn arwain at gau'r achos neu gamu i lawr i wasanaeth Tîm o Amgylch y Teulu. Roedd protocol ar waith ar gyfer trosglwyddo achosion o'r fath er mwyn lleihau'r amser y byddai'n rhaid i deulu aros i'r gwasanaeth newydd ddechrau. Roedd rhestr aros ar gyfer y gwasanaeth Tîm o Amgylch y Teulu ar adeg yr arolygiad, felly dylai'r trefniadau hyn gael eu monitro i sicrhau nad oes effaith negyddol ar y cynnydd a wnaed gan deuluoedd a gafodd cymorth gan weithwyr cymdeithasol. Roedd tystiolaeth o waith uniongyrchol effeithiol yn cael ei gwblhau a oedd yn cynorthwyo teuluoedd i ofalu am eu plant.

4.7 Roedd rhywfaint o anghysondeb yn nifer yr achosion mewn angen yr oedd gan bob tîm ar draws y gwasanaeth, ac roedd posibilrwydd y gallai hyn effeithio ar faint a dwyster y gwaith a fyddai'n cael ei wneud. Roedd gan y tîm a oedd yn cefnogi plant ag anableddau faich gwaith uchel o hyd, gyda 311 o achosion. Fodd bynnag, nid oedd gan y tîm swyddi gwag ac nid oedd angen gweithwyr asiantaeth i gyflenwi absenoldebau staff. Roeddent yn cytuno bod y gwasanaeth lawer yn fwy clir ac yn canolbwyntio mwy ar ganlyniadau. Roedd yn amlwg bod lefel uchel o wybodaeth ac arbenigedd yn y tîm, a bod hon yn cael ei rhannu'n dda i ddatblygu a gwella arferion. Roedd gweithwyr yn bod yn greadigol o ran eu gwaith uniongyrchol, ac roeddent yn optimistaidd y byddai ganddynt fwy o gapasiti gyda'r dull mwy rhagweithiol o reoli gwaith achos. Roedd trefniadau pontio gyda gwasanaethau oedolion wedi gwella, ond o hyd, nid oeddent yn dechrau'n ddigon cynnar i roi amser i wneud cynlluniau da yn gyson. Croesawodd y gweithwyr y trefniadau ar gyfer cydweithio â staff o'r timau plant cymunedol ar achosion amddiffyn plant ac achosion llys.

4.8 Roedd cynllunio gofal yn amserol ac yn dangos rhywfaint o welliant o ran ansawdd y gwaith, ond nid oedd hyn yn gyson. Roedd gwelliant o ran cofnodi cynlluniau, a chafodd templedi eu diwygio, ond roedd angen rhagor o waith. Nid oedd cynlluniau 'plentyn mewn angen' a chynlluniau gofal yn canolbwyntio'n rheolaidd ar ganlyniadau; ni nodwyd blaenoriaethau'n glir, ac yn aml nid oedd yn glir beth oedd yr hyn a gyflawnwyd a pha gamau gweithredu oedd heb eu gwneud. Nid oedd yn glir sut roedd plant, pobl ifanc, a gofalwyr wedi cael eu cynnwys yn y broses gynllunio, na ph'un a oedd eu safbwyntiau wedi cael eu cynnwys. Cafwyd gwelliant o ran amseroldeb a chofnodi ymweliadau statudol. Roedd yn glir bod gan weithwyr cymdeithasol well ddealltwriaeth o ddiben y gwaith hwn a phwysigrwyd gweithio gyda phlant a phobl ifanc i gyflawni eu potensial. Roedd defnyddwyr gwasanaeth y siaradwyd â nhw yn gadarnhaol iawn ynghylch yr effaith yr oedd y gweithwyr cymdeithasol wedi ei chael ar eu bywydau.

Enghraifft o arferion:

Gwnaeth gweithiwr cymdeithasol o'r tîm plant ag anableddau gynhyrchu llythyr darluniadol i helpu dau riant ag anawsterau dysgu i ddeall y broses Amlinellad Cyfraith Cyhoeddus.

4.9 Gwnaeth y boblogaeth sy'n derbyn gofal leihau o 457 i 429 ers yr arolygiad diwethaf, ac roedd wedi sefydlogi. Roedd gan y tîm 'plant sy'n derbyn gofal' 193 o achosion Plant sy'n Derbyn Gofal, ac roeddent wedi eu staffio'n llawn, ond cytunwyd ar swyddi ychwanegol er mwyn gallu trosglwyddo achosion tymor hir o'r timau plant cymunedol. Roedd angen capasiti ychwanegol hefyd i wneud gwaith a nodwyd yn y strategaeth lleihau Plant sy'n Derbyn Gofal er mwyn defnyddio gorchmynion gofal lle'n briodol a chefnogi ceisiadau ar gyfer Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig. Roedd y tîm yn gweithio i sicrhau sefydlogrwydd o ran lleoliadau ac i ddarparu cymorth targededig ar gyfer plant a phobl ifanc. Gwelodd yr arolygwyr enghreifftiau o waith hanes bywyd ardderchog, a hefyd ffyrdd creadigol o gyfathrebu â rhieni ag anawsterau dysgu. Roedd gofalwyr maeth a gweithwyr cymdeithasol wedi nodi bod bwlch yn y gwasanaethau oedd ar gael i gefnogi plant sy'n derbyn gofal gydag anghenion emosiynol neu iechyd meddwl. Roedd uwch reolwyr wedi ymrwymo i brynu gwasanaethau yn ôl y galw pe bai anghenion yn cael eu nodi, ond nid oedd yn ymddangos bod yr holl aelodau staff wedi cael eu hysbysu. Roedd gan yr arolygwyr rai pryderon y gallai'r ymagwedd hon arwain at ymateb anghyson o ran diwallu anghenion.

4.10 Roedd y trefniadau ar gyfer darparu cymorth 'gadael gofal' wedi newid ychydig cyn cynnal yr arolygiad. Roedd gwahaniaeth barn ymhlith y tîm ynghylch y newidiadau, a oedd yn golygu bod yr holl gyn bobl ifanc berthnasol hynny (18+ oed) yn cael eu clustnodi ar gyfer ymgynghorwyr personol, ac y byddai'r bobl ifanc berthnasol (16 + 17 oed) yn cael eu clustnodi ar gyfer gweithwyr cymdeithasol. Roedd llwyth achosion y tîm yn uchel, gyda 286, ac roedd 109 ohonynt yn dal i fod yn 'derbyn gofal'. Roedd gweithwyr wedi ymrwymo'n gryf i ddarparu cymorth perthnasol i'r rhai sy'n gadael gofal, ac roeddent yn awyddus i ddatblygu adnoddau galw heibio er mwyn ei wneud yn haws mynd at gymorth

a gwasanaethau. Roedd amseroldeb cynlluniau llwybr wedi gwella, ond mae ansawdd gwaith cynllunio yn faes i'w ddatblygu. Cyfeiriwyd at y cynnydd rhagamcanol yn y llwyth gwaith dros y ddwy flynedd nesaf yn gynharach yn yr adroddiad.

4.11 Roedd amseroldeb adolygiadau 'plant sy'n derbyn gofal' wedi gwella eto i 96% yn nhrydydd chwarter 2014/15. Roedd tystiolaeth bod anghenion y plentyn yn cael eu hystyried mewn ffordd effeithiol, ond nid oedd cynlluniau'n cael eu diweddarau'n gyson ac nid oedd yn hawdd olrhain cynnydd. Nid oedd presenoldeb da ymhlith plant a phobl ifanc yn yr adolygiadau, a dywedodd swyddogion adolygu annibynnol nad oedd modd iddynt gwrdd â nhw'n rheolaidd cyn cynnal yr arolygiadau. Roedd tair swydd wag yn y tîm, ac o ganlyniad i'r anhawster a gafwyd o ran recriwtio i'r swyddi penodol hyn, roedd gweithwyr sesiynol yn gwneud y gwaith. Cafodd y rolau a'r cyfrifoldebau yn y tîm Swyddogion Adolygu Annibynnol eu hadolygu fel bod yr holl weithwyr yn cadeirio adolygiadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a chynadleddau achos. Cydnabuwyd nad oedd gan y tîm Swyddogion Adolygu Annibynnol y sgiliau a'r profiad i gyflawni'r hyn a ddisgwyliid o'r gwasanaeth, a mynegodd rhai gweithwyr cymdeithasol anfodlonrwydd ag ansawdd gwaith y Swyddogion Adolygu Annibynnol. Cyflwynwyd cynllun gwella ar gyfer Swyddogion Adolygu Annibynnol a oedd yn cynnwys cysgodi gweithwyr cymdeithasol, cyfleoedd i arsylwi ar eraill yn cadeirio adolygiadau a chynadleddau, a hyfforddiant.

4.12 Ar adeg yr arolygiad diwethaf, nodwyd bod amddiffyn plant yn un o'r meysydd blaenoriaeth yr oedd angen ei wella. Llwyddwyd i gynnal y gwelliant o ran amseroldeb prosesau amddiffyn plant. Ar y cyfan, canfu'r arolygwyr fod ansawdd y gwaith wedi gwella, ac roedd gweithwyr yn dangos lefel uchel o hyder yn eu gallu i wneud defnydd effeithiol o brosesau amddiffyn plant. Canfuwyd bod cynlluniau ar gyfer amddiffyn plant yn canolbwyntio mwy ar ganlyniadau, ond ar y cyfan roedd yn faes i'w ddatblygu. Roedd rhai gweithwyr cymdeithasol o'r farn nad oeddent yn gallu diwygio'r cynllun amddiffyn plant, sy'n cael ei lunio ar y dechrau yn y gynhadledd amddiffyn plant. Canlyniad hyn oedd nad oedd rhai cynlluniau'n adlewyrchu newidiadau mewn amgylchiadau, nac yn blaenoriaethu camau gweithredu, neu'n cofnodi cynnydd yn effeithiol. Roedd ansawdd cofnodion cynadleddau achosion amddiffyn plant yn dal i amrywio, ac roedd angen gweithio i'w gwella. Roedd ansawdd gwaith grŵp craidd wedi gwella, ac roedd yn dangos tystiolaeth o ymgysylltu amlasiantaeth gwell, ond nid oedd cofnodion am gamau gweithredu a chynnydd bob amser yn cyd-fynd â'r cynllun amddiffyn plant. Ychydig iawn o dystiolaeth oedd o sut roedd rhieni, gofalcwyr a phobl ifanc wedi bod yn rhan o'r broses, ac ni chafodd eu safbwyntiau eu cofnodi'n rheolaidd.

Safbwynt rhieni:

'Ni wnaeth unrhywun esbonio beth oedd pwrpas cynhadledd amddiffyn plant, a daeth hyn fel sioc. Roedd yr heddlu yno, ac roeddwn i'n teimlo eu bod wedi ymosod arnaf i pan oeddwn yn eistedd yno yn gwrando ar hynny [collfarnau blaenorol y teulu], ac roedd yn ofnadwy wedyn pan ofynnwyd i mi adael yr ystafell am ddeng munud.'

4.13 Roedd gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr yn cael cefnogaeth dda gan wasanaethau cyfreithiol. Roedd trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch trothwyon ar gyfer sbarduno'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn briodol yn yr achosion a adolygwyd gan yr arolygwyr. Ar adeg yr arolygiad, roedd 46 o achosion yn y cam cyn gweithrediadau, ac roedd 23 o achosion mewn gweithrediadau gofal, sef lleihad o'r flwyddyn flaenorol. Mewn rhai achosion, treuliwyd cyfnod estynedig yn y cam cyn gweithrediadau. Roedd yn ymddangos nad oedd adolygiad rheolaidd o gynnydd yn erbyn meini prawf cytunedig, ac roedd oedi mewn nifer o achosion. Unwaith i'r penderfyniad gael ei wneud i ddechrau gweithrediadau llys, roedd achosion yn cael eu monitro'n dda. Roedd yn ymddangos bod gweithwyr cymdeithasol yn defnyddio'r hysbysiad Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus fel ffordd o roi gwybod i rieni bod pryderon wedi cynyddu. Roedd yn amlwg bod rhai teuluoedd wedi gwneud mwy o gynnydd ar ôl derbyn yr hysbysiad ffurfiol am ei fod yn rhoi dealltwriaeth glir iddynt o fwriad yr awdurdod. Fodd bynnag, dylid cytuno ar amserlenni ac adolygiadau amserol ar ddechrau'r broses er mwyn gallu nodi ac olrhain p'un a yw'r newidiadau sydd eu hangen wedi cael eu gwneud yn y tymor canolig a'r tymor hwy. Darparwyd capasiti ychwanegol i gynorthwyo un tîm lle roedd nifer uwch o Amlinelliadau Cyfraith Gyhoeddus ar waith. Roedd prif swyddogion yn cynllunio i gryfhau goruchwyliaeth o'r trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch y broses, a dylai hyn gynnwys adolygu amserlenni ar gyfer y cyfnod y dylai achos aros yn y cam cyn gweithrediadau.

4.14 Dywedodd asiantaethau partner fod cysylltu â'r gwasanaeth 'y tu allan i oriau' yn dal i fod yn broblemus ar amserau penodol. Cafodd y trefniadau ar gyfer y gwasanaeth eu hadnewyddu gan yr awdurdod, ac roedd cynlluniau ar waith i gynyddu capasiti i sicrhau ymateb mwy cyson ac amserol.

Dyfyniad gan berson ifanc:

'Mae Llwybr 16 yn wych. Dydw i ddim yn gallu meddwl am unrhyw beth gallen nhw ei wneud yn well. Pe bai gen i arian, byddwn i'n gwneud rhodd i Llwybr 16 er mwyn iddyn nhw allu helpu mwy o blant fel fi.'

Atodiad 1

Argymhellion o'r arolygiad a gwblhawyd ym mis Tachwedd 2013.

Rhoi Cyfeiriad

1. Bydd angen cynnal cefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gref i sicrhau bod gwella gwasanaethau cymdeithasol i blant yn barhaus ac yn dal i fod yn flaenoriaeth.
2. Dylid diwygio'r Cynllun Gwella Strategol er mwyn iddo ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau er mwyn gallu asesu cynnydd yn effeithiol a gallu canfod meysydd ar gyfer datblygiad pellach yn haws.

Cyflenwi Gwasanaethau Cymdeithasol

Gweithlu

3. Dylid canolbwyntio'n barhaus ar gyflenwi strategaeth y gweithlu gan gynnwys:
 - a. Cadw staff a mwy o sefydlogrwydd o ran y trefniadau ar gyfer gweithwyr asiantaeth.
 - b. Datblygu pecyn sefydlu sydd hefyd ar gael i weithwyr asiantaeth ac sy'n cynnwys yr hyn mae rheolwyr yn ei ddisgwyl o ran cymhwysedd staff ar ddiwedd y cyfnod prawf.
 - c. Datblygu polisïau a gweithdrefnau ar-lein.
 - d. Ystyried yr effaith y bydd unrhyw leihad yn y cymorth gan Adnoddau Dynol yn ei chael ar yr agenda ar gyfer gwella.
 - e. Dylai proffiliau gweithlu o drosiant a phrofiad staff fod yn gyson o ran cynnwys gweithwyr asiantaeth ai peidio.
 - f (i). Dylid esbonio swyddogaethau a chyfrifoldebau dirprwy reolwyr tîm mewn perthynas â goruchwyllo staff trwy ymgynghoriad a chyfathrebu gyda'r holl staff.
 - f (ii). Dylid esbonio swyddogaethau a chyfrifoldebau gweithwyr cymdeithasol ymgynghorol mewn perthynas â goruchwyllo staff trwy ymgynghoriad a chyfathrebu gyda'r holl staff.
 - g. Mae angen ymgysylltu'n fwy effeithiol ag asiantaethau partner wrth hyrwyddo hyfforddiant amlasiantaeth.

- h. Dylid manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd dysgu a datblygu, yn arbennig mewn perthynas ag amddiffyn plant a chynllunio gofal, a dylai'r cyfleoedd hyn fod yn rhan o gyfarfodydd goruchwyllo a chyfarfodydd tîm.
- i. Dylid canolbwyntio'n barhaus ar fagu hyder staff wrth reoli bwllian ac arfer gormesol.
- j. Dylid datblygu dull cyson o weithredu wrth wneud trefniadau llanw pan fydd staff yn absennol, yn arbennig ar gyfer ymweliadau statudol.

Rheoli Perfformiad/Sicrhau Ansawdd

- 4. Dylid adrodd yn gyson ar gasglu data'n ymwneud â mynediad at wasanaethau plant.
- 5. Dylid gwella'r dadansoddiad o ddata perfformiad er mwyn amlygu goblygiadau newidiadau. Dylid tynnu sylw at feysydd sydd angen eu datblygu yn ogystal â gwelliannau.
- 6. Dylid blaenoriaethu cynlluniau i weithredu'r fframwaith sicrhau ansawdd, a dylid defnyddio canlyniadau cwynion yn y cynlluniau er mwyn dylanwadu ar arfer.
- 7. Mae angen gwaith pellach i atgyfnerthu'r cynnydd a wnaed wrth wella cofnodi gwybodaeth a gwneud penderfyniadau ar gynlluniau, cofnodion cynadleddau achos, a gwaith grwpiau craidd.

Llunio Gwasanaethau

- 8. Dylid adolygu'r protocol Cyfranogiad, Ymgysylltiad ac Eiriolaeth i sicrhau bod y cynigion yn ddichonadwy.
- 9. Dylid hysbysu pob gweithiwr cymdeithasol a rheolwr yn gyson am ddatblygiad gwasanaethau ataliol y Bartneriaeth Teulu'n Flaenaf.
- 10. Dylai'r gwaith cysoni trothwyon sy'n cael ei gwblhau gan y Bartneriaeth Teulu'n Flaenaf gael ei ddiffinio a'i gyfleu yn eglur.
- 11. Dylai proffil y boblogaeth sy'n derbyn gofal gynnwys hyd yr amser y mae plentyn wedi derbyn gofal ac a yw'n cael ei leoli y tu allan i'r sir.

Dod o hyd i Gymorth

- 12. Mae angen arweiniad pellach ar weithwyr cymdeithasol ar ystyried risg a sut mae'r wybodaeth a gasglir yn cael ei dilysu a'i chofnodi.
- 13. Ni ddylid parhau â'r arfer o gynnal asesiadau cychwynnol wrth y bwrdd gwaith.
- 14. Dylid sefydlu trefniadau yn ddi-oed i archwilio cysylltiadau nad ydynt yn arwain at atgyfeiriadau ac atgyfeiriadau nad ydynt yn arwain at unrhyw gamau gweithredu yn dilyn asesiad cychwynnol.

15. Dylid cytuno ar y trefniadau ar gyfer trosglwyddo achosion rhwng timau, yn arbennig mewn perthynas â throsglwyddo achosion o'r tîm derbyn, a dylid hysbysu'r holl staff amdanynt a'u rhoi ar waith cyn gynted â phosib.
16. Dylid parhau i ganolbwyntio ar hyrwyddo cysondeb yn ansawdd yr asesiadau.
17. Mae angen gwella ansawdd cynllunio gofal i blant a phobl ifanc.
18. Mae angen adolygu achosion 'plant mewn angen' ymhellach er mwyn rhesymoli galw a sicrhau bod cymorth gan weithwyr cymdeithasol yn ddigonol.
19. Mae angen mwy o arweiniad ar weithwyr cymdeithasol ar ddiben ymweliadau statudol o ran amddiffyn plant a phlant sy'n derbyn gofal a sut i gofnodi'r ymweliadau.
20. Dylai trefniadau i adolygu cynlluniau parhad i blant sy'n derbyn gofal, yn arbennig y rhai a gedwir gan y timau plant cymunedol, barhau i fod yn flaenoriaeth.

Trefniadau ar gyfer Amddiffyn Plant Agored i Niwed

21. Mae angen mwy o gymorth ar weithwyr cymdeithasol i ddatblygu gwell sgiliau wrth gyflawni'r canlynol.
 - i) Ymchwiliadau Adran 47;
 - ii) Datblygu ac adolygu cynlluniau amddiffyn plant;
 - iii) Gweithio mewn grwpiau craidd.
22. Dylai'r awdurdod lleol adolygu'r gwasanaeth 'tu allan i oriau' i sicrhau bod trefniadau ar waith i ymateb yn brydlon ar bob achlysur.

Atodiad 2

Gwybodaeth ynghylch yr arolygiad.

Methodoleg

Cynhaliwyd gwaith maes ar gyfer yr arolygiad hwn yn ystod yr wythnosau'n dechrau ar 9 Chwefror 2015 a 23 Chwefror 2015.

Casglwyd rhagor o wybodaeth o:

Ddogfennau strategol a dogfennau polisi; dangosyddion perfformiad ar gyfer 2014/15; data gweithlu a baich gwaith; ac archwiliadau o ffeiliau achos.

64 ffeil achos.

12 cyfweiliad â rhieni, gofalwyr a phobl ifanc.

Pum achos o arsylwi ar arfer.

21 cyfweiliad unigol â gweithwyr achos, 8 rheolwr tîm, a 2 Swyddog Adolygu Annibynnol.

Sampl o gwynion ac ymholiadau a nodiadau goruchwyllo staff.

Amrywiaeth o gyfweiliadau ag aelodau etholedig, uwch reolwyr a rheolwyr gweithredol, gwasanaethau cyfreithiol, asiantaethau partner, naw tîm gweithredol.

Arolwg staff – cawsom 51 ymateb.

YTîm Arolygu

Roedd y tîm arolygu'n cynnwys tri arolygydd a gyflogir gan AGGCC, dau arolygydd y telir ffi iddynt, a'r rheolwr ardal ar gyfer Castell-nedd Port Talbot.

Arolygydd arweiniol: Pam Clutton;

Rheolwr Ardal: Ann Rowling;

Arolygwyr tîm: Bobbie Jones, Katy Young;

Arolygwyr y Telir Ffi Iddynt: Bryan Isaac a Karen Tudor.